# y dinesydd

Ebrill/Mai 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 280


# Dathlu Dwbwl

gan Mari Watkin

Ebrill y deuddegfed yng Nghaerdydd – dwy ffeinal, a'r cyffro'n heintus wrth ddisgwyl y diwrnod mawr. Ers misoedd, roeddem wedi bod yn dilyn trywydd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd i'w ffeinal yn Stadiwm y Mileniwm, a'r achlysur wedi ei glustnodi yn ein dyddiaduron yn barod. Ond rhaid oedd newid ein cynlluniau pan ddaeth y newyddion fod ein côr ni, Côrdydd, drwyddo i ganu yn ffeinal Cystadleuaeth Corau Radio Cymru yn Neuadd Dewi Sant ar yr un dyddiad. Roedd diwrnod llawn cynnwrf ar y gorwel.

Mawr fu'r paratoi ar gyfer y gystadleuaeth gan y côr. Yn gyntaf, roedd angen twtio a chaboli'r darnau a ganwyd yn y rowndiau blaenorol. Ond rhaid oedd torchi llewys a newid gêr er mwyn dysgu darn comisiwn, a hynny mewn ychydig wythnosau. Tipyn o her, yn enwedig â'r darn, 'Atgofion' gan Richard Elfyn, yn un nodweddiadol fodern yn llawn cymalau a chynganeddion annisgwyl. Rhaid cyfaddef ein bod ni'n gôr digon hamddenol fel arfer gyda'r pwyslais lawn cymaint ar y cymdeithasu â'r canu – polisi creiddiol i lwyddiant y côr er clod i Sioned James, ein harweinyddes. Ond rhaid oedd ymateb i'r her. Rhoddwyd recordiad personol o'r gân ar CD i bob aelod, a chyfarwyddyd pendant ein bod i wrando arni bob cyfle posib a'i dysgu – yn y gwaith, yn y car, yn y gwely…!




Doeddem ni ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl ar y noson. A ninnau'n gôr cymharol newydd, roeddem yn ymwybodol ein bod yn cystadlu yn erbyn corau profiadol a oedd wedi hen ennill eu plwyf. Felly mentro â meddwl agored wnaethon ni, gyda Sioned yn rhoi'r pwyslais ar fwynhau a chanu'n gorau. A dyna a ddigwyddodd. Mwynhau am 17 munud ar lwyfan Neuadd Dewi Sant, a phawb yn gwneud eu gorau er parch i Sioned a'i gwaith caled. Hefyd, roedd bois y clwb rygbi wedi ennill eu ffeinal nhw yn y prynhawn, felly roedd hyd yn oed mwy o fin ar ein hawch cystadleuol. Byddai dathlu'r dwbwl

(parhad ar dudalen 4)

## BYW Y FREUDDWYD

gan Rhodri Llywelyn



Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn dathlu

## Clwb Rygbi Cymry Caerdydd

Hydref 2002, a gêm gwpan yn erbyn Yr Eglwys Newydd. Galwadau munud olaf i ddihuno'r bois, potel neu ddwy o 'Lucozade' i glirio'r pen, chwys yr wythnos gynt yn dal i ddrewi ar y crysau, a llond llaw o gefnogwyr yn gweld buddugoliaeth i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd ar Gaeau Llandaf…

…6 mis yn ddiweddarach yn erbyn Glyncorrwg daeth clo perffaith i'r tymor gorau erioed yn hanes y Clwb. Diwrnod i'r Brenin, a Geraint Morgan yn coroni'r cyfan wrth godi Cwpan Worthington i is-glybiau Cymru o flaen torf o 4,000 yn Stadiwm y Mileniwm.

Sêr y Coed Duon, sef y deiliaid blaenorol (15-24), Aberbargoed (13-29), Trefil (21-14), a Girling (39-17) - doedd gan yr un o'r timau y gallu i drechu blaenwyr penderfynol, nac olwyr dawnus y Clwb yn ystod y gystadleuaeth. Ar hyd y daith, cododd hyder y garfan, cynyddodd y diddordeb, ac mae'r diolch i'r chwaraewyr nad oedd yn rhan o'r tîm cyntaf, i'r pwyllgor, i'r cyn-chwaraewyr ac i'r cannoedd o gefnogwyr, am y llwyddiant.

(parhad ar dudalen 4)

# Y Dinesydd

**Ebrill/Mai, Rhif 880.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd, Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Hywel Jones

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Cen Williams

### NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Mehefin 2003 erbyn 27 Mai at:**
Cen Williams, 27 Llantrisant Drive, Llandaf, Caerdydd CF5 2PG (Ffôn: 029-2057-5439; e-bost: lorraine@pioneerprinting.co.uk)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

### HYSBYSEBU

Mae 3,000 o gopïau o bob rhifyn o'r *Dinesydd* yn cael eu dosbarthu. Mae'n gyfrwng hwylus i gyrraedd cyfran uchel o Gymry Cymraeg y brifddinas. Mae ein hysbysebwyr yn tystio pa mor effeithiol a rhesymol yw hysbysebu yn Y Dinesydd. Ar ben hynny, mae pob hysbyseb yn cyfrannu at gynnal Y Dinesydd, gan fod incwm hysbysebion yn hanfodol i barhad y papur.

Os ydych am hysbysebu yn *Y Dinesydd*, cysylltwch â MENNA GWYN, 41 Wingfield Rd, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041-8270; e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk).

### DERBYN A DOSBARTHU COPÏAU

Os ydych yn cael anhawster i gael gafael ar gopïau o'r *Dinesydd*, neu os ydych yn barod i fod yn ddosbarthwr, cysylltwch â ROBIN JONES, 1 Kings Rd, Radur, Caerdydd (Ffôn: 029-2084-2929).

Os ydych am dderbyn *Y Dinesydd* drwy'r post, cysylltwch â CERI MORGAN, d/o Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG (Ffôn: 07774-816209; e-bost: ceri33@btopenworld.com).

### CYNORTHWYO'N OLYGYDDOL


Gwaith tîm o wirfoddolwyr yw cynhyrchu a dosbarthu'r *Dinesydd*. Rydym bob amser yn croesawu pobl newydd i ymuno â'r tîm! Os ydych yn barod i gynorthwyo mewn unrhyw fodd - trwy gasglu newyddion, teipio erthyglau, golygu rhifyn, etc. - yna cysylltwch â Chadeirydd Pwyllgor Y Dinesydd, Dr E. WYN JAMES, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

### CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar roddion gan unigolion a chymdeithasau. Mae ein Trysorydd, CERI MORGAN, yn croesawu pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch ato dan ofal Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14 2FG
(Ffôn: 07774-816209;
e-bost: ceri33@btopenworld.com).

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 40** **Ebrill / Mai 2003**



**Ar Draws**

1. Y groesffordd lle mae Tŵr y Bont yn dadfeilio (8)
6. A yw dechrau canu am galon lân yn datguddio'r llaca? (4)
8. Cael llety hanner estron yn yr afon (6)
9. Cabler rywsut drwy fân siarad (6)
10. Tref lle can sedd wedi torri (9)
14. Colli dagrau dros ran o lywodraeth sy'n mynd o chwith (4)
15. Agoriad tywyll ar yn ail (3)
16. 15 yn y graig - dim un i bedoli (4)
17. Ces ymdaith o gwmpas a chael cyfeillach (9)
20. 'Ein târ a'n ____ ar ein taith
A'n Twysog fuost oesodd maith' (J.T.J.) (6)
22. Enw byr yn ffrwydro yn y ffurfafen (6)
23. Rhyw arth o ysgolfeistr (4)
24. Ffeindio 'ryw estron gwyllt' yng ngheg cath fawr! (4,1,3)

**I Lawr**

2. Pren mesur i rai swil bob yn ail (4)
3. 'O! rhwyma fi wrth ___ dy byrth
I aros tra fwyf byw (T.J.) (4)
4. Pryna tŷ ni a ffeindia le i gadw'r bwyd (2,1,6)
5. Sŵn cloc cywir (3)
6. A oes lle i Caron yma? (8)
7. A oedd awr Ed yn y gôl yn un achubol? (8)
11. Cael hyd i aderyn y nos mewn un tŷ llawen (6,3)
12. Cyfaill Cymdeithas y Dysgwyr aeth i ffwrdd (8)
13. Ciwed go wyllt cyn dim yn fforesta (8)
18. Bro y bwrlwm sydd isod (4)
19. Afon sy'n sugno gwaed (4)
21. Y pwrpas yw dechrau naddu offeryn dwyreiniol (3)

**Croesair Rhif 39**

**Ar draws:** 1. Golchdy; 5. Selsig; 9. Digerdd; 10. Lawnt y; 11. Tiwn; 12. Gogleddwr; 14. Brychni; 16. Ymylon; 19. Abertawe; 21. Gwell; 22. Darpar; 23. Welwyd; 24. Wych y da; 25. Gerddor. **I lawr:** 2. Oddieithr; 3. Chwennych; 4. Ymddigrifa; 6. Efail; 7. Seneddol; 8. Gwydryn; 13. Gwyr enwog; 14. Brawd yw; 15. Yn edrych; 17. Ysgeler; 18. Ofer yno; 20. Tlawd.

Dim ond 5 ymgais a dderbyniwyd cyn diwedd Mis Mawrth, mwy na thebyg am fod y Dinesydd yn hwyrach nag arfer yn dod o'r wasg. Roedd pedwar ohonynt yn hollol gywir. Danfonir y tocyn llyfrai i Eira Jones, 42, Rhydhelyg Ave, Y Mynydd Bychan. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Gwenda Hopkins, Llanishen; Dilys A Pritchard-Jones, Abererch a Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd. Diolch i'r pump am eu hymdrech.

**Cystadleuaeth Ebrill/Mai**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 27 Mai 2003.

## Llongyfarchiadau i

- Gwenllian ac Aled Evans, Pontcanna, ar enedigaeth BECA, chwaer i Noa, wyres i Enid a Dafydd, Radur, Gaynor a Ieuan, Aberteifi.

- Matthew a Nona Gruffudd-Evans ar enedigaeth merch fach, Greta Angharad, chwaer i Gwenllian Käthe, ar y 19eg o Ragfyr, yn ysbyty Llandochau.

- Rhian a Gwyn Roberts Pontcanna ar enedigaeth eu merch Manon Fflur;

- Mared a Simon Stockton, Pontcanna ar enedigaeth eu merch Lleucu Grug;

- Dr Sybil Barr a Dr Tim Kinnaird yn Washington D.C. ar enedigaeth eu mab Oliver Gilbert ar 22 Chwefror. Ŵyr cyntaf i Ben a Sarah Barr, Rhiwbina a nai i James a Siân Barr, Llundain;

- Emyr Roberts a'i wraig Linda, Rhiwbina ar enedigaeth Catrin, eu trydedd merch, yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd ar 4 Ebrill;

- Bethan a Mathew Jubb, Y Mynydd Bychan, ar enedigaeth Heledd Mair yn Ysbyty'r Brifysgol ar Fawrth 17. Wyres i Hefin a Ceinwen Elias.

- Heledd Bianchi ar ei swydd newydd fel aelod o dîm o gynrychiolwyr sy'n ymweld â siopau llyfrau led led Cymru ar ran Cyngor Llyfrau Cymru. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf cyn dilyn cwrs Astudiaethau Theatr yng Ngholeg y Drindod Caerfyrddin. Mae'n byw yn y Barri erbyn hyn a bydd yn ymweld â siopau llyfrau yn ne-ddwyrain Cymru.

## Cydymdeimlo â

- Glyn Hughes Treganna ar golli ei wraig Bernice. Bu Bernice farw ar 15 Mawrth yn Ysbyty Felindre, Yr Eglwys Newydd;

- Sandra Petherbridge a'i theulu ar farwolaeth ei gŵr Wil Petherbridge yn Aberystwyth ar 2 Ebrill. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Cantonian, Caerdydd cyn graddio yn y Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol Aberystwyth. Bu'n dilyn gyrfa fel cyfieithydd proffesiynol;

- Teulu Beti Rhys a fu farw ar 5 Ebrill yn 96 oed. Roedd hi'n ferch i'r Parch J.E. Rhys (ap Nathan). O 1950 hyd 1968 bu Beti yn cadw siop lyfrau Gymraeg yn Arcêd y Castell, Caerdydd. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 12 Ebrill.

- Mary Treharne, Alun a Glenna a'u teuluoedd ar farwolaeth Penri Treharne, Y Barri, ar 12 Ebrill.

**Marw Wyndford Davies, Rhiwbina**

Yn 97 oed bu farw Wyndford Davies, tad y dramodydd a'r nofelydd Andrew Davies, ym mis Chwefror. Bu'n athro Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ac un o'i ddisgyblion oedd Huw Jones, prif weithredwr S4C. Brodor o Dreherbert, Cwm Rhondda ydoedd a dysgodd siarad Cymraeg pan yn oedolyn. Cyhoeddodd lyfryn yn olrhain hanes sefydlu Pentre'r Gerddi yn Rhiwbina. Cydymdeimlir â'i feibion a'u teuluoedd yn eu colled.

## Ar dy feic!

Unwaith eto daeth awydd ar Rhys Owen feicio dros achos sy'n agos i'w galon - Ymchwil Arennau. Dair blynedd yn ôl teithiodd Rhys a Jason Lugg o Gaergybi i Gaerdydd a chodi £1500 at yr achos. Eleni beiciodd Rhys a'i frawd Llwyd, Jason a Tom Raybould o Gasgwent i Dŷ Ddewi dros benwythnos y Pasg. Pe dymunai unrhyw rai o ddarllenwyr y Dinesydd gefnogi eu hymdrech dylid cysylltu ag Arwel a Non Owen, 9, Dan y Coed Close, Cyncoed (20753154).

## CWLWM BUSNES CAERDYDD YN DATHLU DENGMLWYDDIANT !

Ar nos Iau, 20 Mawrth, 2003 bu **Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch** yn dathlu ei dengmlwyddiant trwy gynnal cinio yng Nghastell Caerdydd. Roedd Ystafell Wledda'r Castell dan ei sang wrth i 120 o bobol fusnes fwynhau'r cinio a chyfraniad cyfoethog iawn y siaradwr gwadd, John Elfed Jones CBE, cadeirydd International Greetings Cyf.



Emrys Evans CBE, LLD, Llywydd, Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch
Lewis Evans - Cadeirydd, Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch
John Elfed Jones CBE, Cadeirydd, International Greetings Cyf

Mae'r deng mlynedd ers y lawnsiad wedi hedfan heibio a'r Cwlwm wedi hen sefydlu ei hunan fel rhan flaenllaw o fywyd Cymraeg y brif ddinas.

Mae'n hyfryd gweld y croesdoriad o aelodau ifanc a chanol oed, gwŷr a gwragedd, sydd yn mynychu'r cyfarfodydd. Maent yn dod i glywed siaradwyr sydd yn adnabyddus am eu llwyddiant a'u cyfraniad naill ai i'r byd busnes, i Gymru, neu'r ddau. Mae Cwlwm yn gwerthfawrogi'n fawr iawn eu cyfraniad hwythau i'r llwyddiant parhaol.

Wrth ddechrau'r ail ddegawd mae'r Cwlwm am ddefnyddio'r dechnoleg newydd wrth lansio gwefan newydd ym mis Mai, gwefan a fydd â nifer o agweddau diddorol a chyffrous.

Bydd y wefan yn rhoi gwybodaeth nid yn unig am y Cwlwm Busnes ond yn galluogi ymholwyr i ddarganfod pa gwmnïau sydd yn cynnig eu gwasanaethau ac yn cyflogi Cymry Cymraeg. Bydd amserlen o'r gweithgareddau arni ynghyd â gwasanaeth pwysig iawn a fydd yn galluogi cwmniau i hysbysebu swyddi maent am eu llenwi gyda siaradwyr Cymraeg. Bydd yn bosib i'r di-Gymraeg ymweld â'r wefan hefyd oherwydd bydd rhan fwyaf o'r safle yn ddwyieithog.

Y mae croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ym myd busnes ymuno â Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch. Croesewir aelodau unigol, ac mae telerau arbennig ar gyfer aelodaeth gorfforaethol i gwmnïau.

Mae croeso i aelodau newydd ymuno drwy gysylltu â Blod Jones: Ffôn 0797 790 5523 ebost **blod@blodjonespr.co.uk** neu Ceri Preece: ebost **ceri.preece@hughjames.com**

**Amserlen Gweddill 2003**

| | |
|---|---|
| **Mai 22** | **Sue Camper**<br>**Asiantaeth Banc Lloegr yng Nghymru** |
| **Medi 25** | **Bryn Roberts**<br>**Barcud Derwen** |
| **Tachwedd 27** | **Geraint Talfan Davies**<br>**Glas Cymru** |

o dudalen 1 *Dathlu Dwbwl*

yn golygu dwywaith y dathlu!

Mae'r gweddill yn hanes. Buddugoliaeth i'r côr, a ninnau'n gorfoleddu. Penwythnos mawr oedd hwnnw yng Nghaerdydd, a'n 'Hatgofion' ninnau, chwedl cân Richard Elfyn, yn rhai melys. Mae ein dyled yn fawr i Sioned am ei hymroddiad, ei hamynedd a'i diffyg cwsg! Ond mae arnom ddyled hefyd i drigolion Caerdydd am eu cefnogaeth i'r côr ers ein sefydlu dair blynedd yn ôl. A gyda'r gofid diweddar yn y wasg am segurdod Cymry ifanc Caerdydd, braf yw gallu adrodd bod digwyddiadau Ebrill y deuddegfed yn dystiolaeth bendant bod peth gweithgarwch a chyfrannu'n ôl yn rhan o'r cymdeithasu a'r joio yn y ddinas fawr.

o dudalen 1 *Byw y Freuddwyd*

Pan ddaeth 12/4/03, roedd y tîm eisioes wedi mynd ymhellach nag erioed yn y 30 a mwy o flynyddoedd ers sefydlu'r Clwb...ond doedd hynny ddim yn ddigon. Cael enw CRCC ar y tlws oedd y nod.

Glyncorrwg aeth ar y blaen gyda gôl gosb, ond wedi i Ioan Prydderch (y *Legal Eagle* fel y'i disgrifiwyd yn y *Wales on Sunday*) groesi am gais cynta'r gêm, edrychodd mo'r Clwb yn ôl. Ychwanegwyd tri chais arall gan Ioan Prydderch, Aled Thomas a Mark Beynon, yn ogystal â dau drosiad gan Gethin (*Bachelor of the Year*) Jones i'r Cymry; tra i Lyncorrwg lwyddo â dau gais a saith o bwyntiau o'r droed.

Gyda deng munud yn weddill roedd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn amddiffyn mantais fregus o bedwar pwynt. Taflwyd popeth at linell gais y Clwb gan 'Corrwg', yn chwaraewyr a sgrechfeydd y cefnogwyr...ond yn ofer! Gydag 85 munud ar y cloc, daeth y bêl i afael Dafydd Emyr a seliwyd buddugoliaeth i Glwb Rygbi Cymry Caerdydd o 24-20.

Breuddwyd oedd codi'r Cwpan 6 mis yn ôl; yr her nawr yw cadw gafael arno'r tymor nesaf.

## Cymanfa Ganu yn Rhiwbina

Ar nos Sul 6 Ebrill cynhaliwyd Cymanfa ganu flynyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina yng Nghapel Beulah. Yr arweinydd eleni oedd Emyr Roberts, Rhiwbeina, yr organydd oedd Dr Alun Jones a chymerwyd rhan yn y Gymanfa gan Gôr Ysgol Y Wern, Llanishen.

## Pob lwc Colin



Ar ôl deunaw mlynedd disglair fel un o athletwyr gorau'r byd mae Colin Jackson, gynt o Lanedeyrn Caerdydd wedi hongian ei esgidiau rhedeg ar yr hoel am y tro olaf. Yn ystod ei yrfa hynod lwyddiannus enillodd 25 o fedalau yn y prif bencampwriaethau a 71 o grysau rhyngwladol. Does neb erioed wedi rhedeg dros y clwydi yn gyflymach na Colin a deil dwy record byd am yr amserau cyflymaf yn y 110 metr dros y clwydi a'r 60 metr dan do. Pa le bynnag y mae Colin yn y byd fe wnaiff wastad arddel ei Gymreictod ac mae'n debyg ei fod yn aelod o SWS yn ogystal! Tra'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Springwood Llanedeyrn bu ar gwrs Cymraeg yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Pob lwc yn y dyfodol Colin a diolch am roi Cymru ar fap y byd ym myd athletau.

## Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn croesawu Owain Arwel Hughes



Mae Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn wynebu her flynyddol yr haf dan arweiniad newydd eleni, Owain Arwel Hughes, y Cymro Cymraeg o Gaerdydd a sylfaenydd y Proms Cymreig. Owain yw pumed arweinydd y gerddorfa a sefydlwyd yn 1945, a'r Cymro cyntaf i'w harwain.

Bydd y repertoire ar gyfer cwrs a thaith gyngherddau'r gerddorfa - a fydd yn dechrau yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod ac yn dod i ben yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd - yn cynnwys *Symffoni Rhif 1* Mahler, *A Village Romeo and Juliet* Delius, *Preliwd i Die Meistersinger von Nurnberg* Wagner ynghyd â darn newydd gan Gareth Wood, cyn-aelod o'r gerddorfa. Bydd yr unawdydd gwadd, Gwyn Hughes Jones yn ymuno â'r gerddorfa ar gyfer cyngerdd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Blaenwr newydd y gerddorfa yw'r fiolinydd (a'r meddyg dan hyfforddiant!) Jonathan Shapey (21), un o'r tri brawd o Gaerdydd a fydd yn dychwelyd ar gyfer cwrs 2003. Iestyn (19) y ffliwtydd a Selyf (17) yntau'n fiolinydd yw'r ddau arall. Rhaid llongyfarch Cerddorfa Ieuenctid Caerdydd a'r Fro ar gyfrannu 36 o aelodau'r gerddorfa genedlaethol eleni - 5, gan gynnwys Selyf, yn ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf. Dyma'r rhestr gyflawn:

**CAERDYDD**

*Ysgol Gyfun Glantaf:* Marged Jones, Steffan Jones, Selyf Shapey, Alice Reed , Emma Watt
*Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd:* Sarah Cresswell, Claire James, Jonathan Mann, Joseph Tandy
*Ysgol Howell:* Gemma Kost, Caroline Rowe, Angharad Thomas
*Ysgol Uwchradd Caerdydd:* Patrick Bidder, Jeremy Richardson
*Ysgol Gyfun Radyr:* Gabrielle Norrish, Elizabeth Stock
*Ysgol Kings Monkton:* Annette Cox
*Ysgol Uwchradd Teilo Sant:* Owen Gallacher
*Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf:* Annabel Greenwood
*Ysgol Uwchradd Llanishen:* Natasha Staddon
*Myfyrwyr:* Timothy Belcher, Simon Cox, Anna Cresswell, Anne Davies, Matthew Downes, Helen Fisher, James Grindle, Nathan Hamer, Heledd Havard, Iestyn Shapey, Jonathan Shapey, Rhian Thomas

**BRO MORGANNWG**

*Ysgol Uwchradd y Bontfaen:* Natasha Fevre
*Myfyrwyr:* William Holley, Lindsay Kempley, Gemma Jones

**MANYLION Y CYNGHERDDAU:** Eisteddfod Genedlaethol, Meifod - Awst 5 (8pm); Eglwys Gadeiriol Caerwrangon - Awst 7 (12.30pm); Eglwys Gadeiriol Llanelwy - Awst 8 (7.30pm) a Neuadd Dewi Sant, Caerdydd - Awst 9 (7.30pm).

## Pishyn Del!

Cafodd Gethin Jones, mab Goronwy a Sylvia Jones, Caerdydd ei ddyfarnu yn hync sengl mwyaf deniadol Prydain mewn sioe yn Llundain yn ddiweddar. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf ond mae'n byw yn nhre Caernarfon bellach. Yn chwaraewr rygbi a ffidil dawnus mae Gethin nawr yn un o gyflwynwyr Uned Pump a Popty ar S4C. Am faint y bydd e'n sengl tybed??

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

### Gŵyl Ddewi

Wedi'r gwasanaeth Gŵyl Ddewi eleni aeth tua 50 ohonom draw i'r Goleulong yn y Bae i gyflwyno baner gan yr Ysgol Sul i'r Parch Michael Rees (Caplan y Bae) er mwyn ei gosod yng nghapel y Goleulong. Cyflwynwyd y faner gan Meilyr Hughes. Draw wedyn i Harry Ramsden's i hel ein boliau wrth y byrddau gyda physgod a sglodion.

### Cinio Gŵyl Ddewi

Cynhaliwyd dathliad Gŵyl Ddewi Ebeneser eleni yn Neuadd Aberdar. Cafwyd ambell i gainc ar y delyn gan Mirain O'Brien, unawd gan Elin Fouladi a deuawd gan Siân Manning a Bethan i gyfeiliant Arwel Peleg Williams. Fe'n cyfarchwyd yn ddifyr-ddwys gan Aled Gwyn a mynegwyd diolch iddo gan y Gweinidog. Diolch o galon i Megan Williams a Malcolm Thomas am y trefniadau ac i Liz Fouladi am y bwyd blasus.

### Cinio Canol y Ddinas

Aeth 18 ohonom o Ebeneser i gymdeithasu a gwledda yn y swper blynyddol a gynhelir gan Gyngor Eglwysi Canol y Ddinas yn ystod Wythnos Un Byd. Cawsom noson eithriadol hwyliog yn eglwys St. Pedr y Rhath a'r bwyd blasus wedi ei baratoi gan Spiro's. Y siaradwr gwadd oedd y Tad John Owen sydd yn gaplan gyda'r Catholigion yn y brifysgol.

## Salem Treganna

### Aelodau Newydd

Braf yw nodi i ni dderbyn 16 o aelodau newydd yn ddiweddar. Croeso i chi i gyd i'n plith!

### Apêl Bangladesh

Mae cyfanswm yr apel wedi cyrraedd £1,670 erbyn hyn.

### Priodas

Llongyfarchiadau i Iona a Sion a briododd yn Salem ar yr wythfed o Fawrth. Cynhaliwyd y wledd yng ngwesty'r Angel.

### Bedydd

Cawsom dystio i fedydd Huw, mab i Nia a Mark Owen, Parc Fictoria yn ystod mis Chwefror. Cawsom dystio hefyd i fedydd Deio, mab i Glenda Roberts a brawd i Gwenno a Swyn ym mis Mawrth. Ein llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

### Prynhawn o Chwaraeon

Cynhaliwyd prynhawn o chwaraeon amrywiol yng nghanolfan hamdden y Tyllgoed yn ystod mis Chwefror. Roedd yr achlysur blynyddol hwn yn llwyddiant mawr eto eleni - i'r ifanc yn ogystal a'r hen! Cawsom wasanaeth byr yn dilyn y campau.

## Eglwys y Crwys

### Cylch y Chwiorydd a'r Froderfa

Yn ystod mis Mawrth cafodd y ddwy gymdeithas yma gyfle i wrando ar nifer o siaradwyr a rois o'u dawn dweud a'u harbenigrwydd mewn nifer o wahanol feysydd. Cydnabyddir yma gyfraniadau difyr Mary Williams, Valmai Evans a'r Parchedig John Heywood Thomas.

### Y Gymdeithas

Cafodd aelodau y Gymdeithas Ddiwylliannol gyfle i ddathlu gŵyl ein nawddsant eleni gyda chinio yn Neuadd Dewi Sant. Y gŵr gwadd eleni oedd y Dr Aled Lloyd Davies. Bythefnos yn ddiweddarach cafwyd cyfle i wrando ar Gôrdydd mewn cyngerdd graenus a gwerthfawr a sicrhaodd £200 i'r elusen Arch Noa. Aelodau y Gymdeithas o dan arweiniad Mrs Rhiain Phillips oedd hefyd yn gyfrifol am drefnu gwasanaeth y cymun fore dydd Gwener y Groglith.

### Y Theatr

Defnyddiwyd y theatr yn helaeth yn ystod mis Mawrth gan aelodau Cymdeithas Ddrama Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, hefyd gan adran ddrama Ysgol Uwchradd Plasmawr. Ddechrau mis Ebrill daeth Chwaraewyr Howardian i'r theatr i berfformio eu cynhyrchiad nhw o'r ddrama 'Dead Guilty'. Bu Cymdeithas Ddrama yr Eglwys yn rhan o'r Pwyllgor llywio a fydd yn paratoi y rhaglen ddrama ar gyfer Seremoni cyhoeddi Eisteddfod Casnewydd yn y flwyddyn 2004.

### Y Grŵp Merched

Ganol mis Mawrth bu'r Grŵp Merched yn ymweld ag arddangosfa paratoi bwyd yn Siop Aga yn ardal Birchgrove o'r Ddinas. Yn dilyn cafodd yr aelodau bryd o fwyd blasus mewn bwyty Eidalaidd yn yr Eglwys Newydd.

## Y Tabernacl

### Ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau cynnes i Owain Williams ar sicrhau ysgoloriaeth i Ysgol Eton. Bydd yn cychwyn yno ym mis Medi ac yn astudio Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Cerddoriaeth a Diwinyddiaeth. Fe ddymunwn yn dda iddo yn y bennod newydd hon yn ei hanes.

### Yr Urdd

Yn Eisteddfod Sir Caerdydd daeth y canlynol i'r brig. Cawn edrych ymlaen at ddilyn eu hynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Alice Reed - cyntaf ar unawd piano a thelyn dan 19; Marged Jones, cyntaf ar y piano dan 15 a hefyd cyntaf ar y llinynnol dan 15; Steffan Jones yn gyntaf ar unawd bechgyn dan 19; Daniel Preece - yn ail ar yr unawd pres dan 19. Gwych!

### Cyflwyno

Yn ystod oedfa fore'r cymun ym mis Mawrth cafwyd cyfle i gyflwyno Osian Llŷr, mab Rhian a Marc Jon Williams. Roedd hi'n braf cael cwmni Elfyn, Janet ac Iwan Thomas, rhieni a brawd Rhian yn yr oedfa. Rhannwn eu llawenydd ac edrychwn ymlaen at weld magu Osian a'i bresenoldeb ym mywyd yr eglwys.

### Cyngerdd y Côr

Cafwyd cyngerdd arbennig gan y côr eleni wrth iddynt berfformio Offeren Theresa gan Joseph Haydn. Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad yr unawdwyr sef Siriol Wilde, Siân Meinir, Malcolm Bennett a Huw Euron. Gwerthfawrogwyd datganiad o waith Albinoni sef yr Adagio i Organ a Llinynnau. Roedd Alice Reed, Steffan Jones, Marged Jones, Siân Jenkins ynghyd â'r organydd Owain Williams ar eu gorau. Diolch hefyd i'r côr a'r gerddorfa, y cyfeilyddion Huw Thomas a Rob Nicholls, a phawb arall a gyfrannodd at lwyddiant y noson. Diolch yn arbennig i Euros Rhys Evans, yr arweinydd, am ysbrydoli a llywio'r cyfan.

### Cefnogi Pregethwr newydd

Roedd hi'n hyfryd cael gwrando ar Mr Roger Morgan o eglwys Nebo Newydd, Cwmdâr yn pregethu pregeth brawf yn ddiweddar. Mae'n athro Saesneg ar hyn o bryd yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, a'i obaith yw cychwyn yng Ngholeg Caerdydd ym mis Medi.

### Gefeillio gydag eglwys yn Estonia

Mae'r Tabernacl wedi derbyn gwahoddiad i efeillio gydag eglwys yn Estonia. Pam Estonia a pham y Tabernacl? Yn ystod cyfarfod Bedyddwyr Ewropeaidd ym Mhrâg yn 1997, dangosodd pobl o Gymru ddiddordeb mewn cysylltu gydag eglwysi mewn gwledydd

lle roedd eu hunaniaeth genedlaethol dan fygythiad. Bryd hynny, roedd Estonia dan reolaeth yr Undeb Sofietaidd ac roedd ei hiaith a'i diwylliant mewn perygl. Nid yw'n hollol glir sut y dewiswyd y Tabernacl, ond derbyniwyd ei fod e'n beth da i'r ddwy eglwys rannu eu profiadau fel Cristnogion.

Y mae gan Estonia, y leiaf o'r tair Gwlad Baltig, boblogaeth o 1.5 miliwn. Ein chwaer eglwys yw Haapsalu Baptist Church. Y mae Haapsalu ar yr arfordir gorllewinol tua 60 milltir o'r brifddinas, Tallinn. Ar hyn o bryd, y mae ei gweinidog, Eerik Rahkema, yn treulio blwyddyn yn Eglwys Estonia yn Vancouver; fe fydd yn mynd yn ôl i Haapsalu fis Medi nesaf. Gobeithiwn ddechrau datblygu'n cysylltiadau bryd hynny.

## Minny Street

• Colled fawr i'r eglwys fu marwolaeth Mr Howard Goodfellow (Penarth) ym mis Mawrth - diacon ac arweinydd y gân. Cofiwn yn annwyl iawn am ei briod, Elunis ac am Rhian a Meryl a'u teuluoedd.

• A ninnau'n hiraethu o golli un aelod, hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd Ioan Wyn Williams fore Sul, Mawrth 16. Mae Ioan yn ail fab i Aled a Ruth (Thornhill), yn frawd bach i Elwyn, ac yn ŵyr i Gerald ac Elisabeth Davies.

• Cyfle i deulu'r eglwys fwynhau cwmni ei gilydd oedd noson "Cwis a Chrempog" - ar nos Fawrth Ynyd. Daeth nifer dda o blant, pobl ifanc ac oedolion o bob oed i'r festri i brofi eu gwybodaeth mewn cwis wedi ei drefnu gan Owain Llŷr a Lona cyn i ni gael mwynhau crempog (neu ddwy) a sgwrs.

• Ganol Mawrth, bu nifer fawr o blant a phobl ifanc yr eglwys yn cystadlu a chymryd rhan yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Llongyfarchiadau i BAWB a gymerodd ran a phob hwyl i bawb fydd yn mynd yn eu blaenau i Fargam. Tra bo'r ieuenctid yn chwysu yn y steddfod, bu rhyw ddwsin o aelodau yn chwysu ar daith gerdded o fynydd Caerffili (Traveller's Rest) i dafarn y Maenllwyd - diolch i John Albert Evans am drefnu'r daith: mae edrych ymlaen yn barod am y daith nesaf!

## Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd

• Yn ystod oedfa bore Sul 9 Mawrth cafwyd cyflwyniad am waith Tearfund gan bobl ifanc yr eglwys. Soniodd Rhydian Evans a Gerallt Elis am y cylchgrawn Tear Times sy'n dathlu ei ganfed rhifyn. Gan Alaw Fflur ac Ifan Lewis, cafwyd apêl am weddïau dros heddwch yn Swdan. Yna, gan Nerys Williams, cafwyd disgrifiad o gynnwys fideo diweddaraf Tearfund am blant yn Nyffryn yr Hollt, Ethiopia, yn derbyn addysg o ganlyniad i waith yr eglwysi yn yr ardal ddiarffordd honno. Yna cafwyd crynodeb gan Gerallt Emyr o'i ymweliad chwe wythnos â Lesotho yn neheudir Affrica, ymweliad a oedd yn rhan o'i gwrs fel darpar feddyg.

• Dymuniadau gorau i Marc Davies, Heol St. Isan, a Rebecca Jones, o Gaerffili, ar eu priodas ar 12 Ebrill. Llongyfarchiadau hefyd i Marc ar dderbyn gradd doethuriaeth gan Brifysgol Cymru.

• Dymuniadau gorau i Rhodri Jones, sy'n athro Saesneg yn Ysgol Plas Mawr, ar ei briodas ag Anwen Thomas, athrawes Cemeg yn yr un ysgol, ar eu priodas ar 17 Ebrill, yn Heol Awst, Caerfyrddin.

• Llongyfarchiadau i Iwan Davies ar ei ddyweddïad â Bethan Haf Davies, o Langefni Ynys Môn. Graddiodd Bethan mewn Seicoleg yn yr Athrofa yng Nghaerdydd y llynedd, ac mae Iwan, sy'n hanu o Aberystwyth, yn athro yn Ysgol Gynradd Bro Eirwg. Pob dymuniad da i'r ddau wrth iddynt baratoi ar gyfer eu priodas ar 8 Awst.

## LLYTHYR AGORED

Annwyl gyd-ddinasyddion.

Bwriad y llythyr hyn ydy tynnu sylw pawb ohonoch sydd yn byw yn y ddinas ac wedi ymddeol, at y cyfle gwych sydd gennych i ddod allan o'r tŷ ac ar yr un pryd gyfeillachu ag eraill o'r un oed. Mae Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd yn sefydliad sydd bellach wedi dathlu dros ddeng mlynedd o gynnig adloniant amrywiol ac ar yr un pryd ehangu ein meddyliau a'n cadw yn feddyliol a chorfforol heini. Fe wneir hyn trwy wahodd siaradwyr diddorol, a chynnal gweithgareddau ymarferol, fel y gwelir o'n rhaglen am eleni isod.

Cynhelir ein cyfarfodydd bob yn ail ddydd Mercher, yn Festri Capel Minny Street. I'r rhai sydd ag anhawster teithio, trefnir, cyn belled ag y bo modd, gludiant iddynt. Mae hyn yn golygu fod ein costau cludiant yn cynyddu ac os oes unrhyw garedigion yn darllen y llythyr hwn ac yn teimlo yr hoffent gyfrannu'n ariannol, yna a wnewch chi gysylltu â'n trysorydd Mr Jeff James, 67 Heol-y-Gors, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (rhif ffôn 2021 9971). Efallai fod gan rywun amser sbâr ar eu dwylo. Mae angen rhywun arnom a fyddai yn fodlon gyrru bws mini i gludo pobl i'n cyfarfodydd. Os oes gennych ddiddordeb gallwch gysylltu â minnau yn y cyfeiriad isod.

Fel rhan o'n gweithgareddau, rhyw bum mlynedd yn ôl sefydlwyd Côr sydd wedi cystadlu yn ddi-fwlch ers Eisteddfod Genedlaethol Pen-y-bont-ar-Ogwr, ac sydd wedi bod yn llwyddiannus ar fwy nag un achlysur. Mi fyddwn eto eleni yn cystadlu yn Eisteddfod Meifod a'r Cylch, yn Sir Drefaldwyn. Mae'r Côr hefyd yn trefnu gwibdeithiau tri neu bedwar diwrnod, mewn amrywiol lefydd yma yng Nghymru ac ar y Cyfandir.

Manteisiwch felly ar y cyfle, a dewch i ymuno â ni. Cewch groeso, cewch de a chacen ar ddiwedd pob cyfarfod, cewch fwyniant, cewch ymestyn eich meddyliau, cewch gwmni difyr ac fe ewch adref o'r cyfarfodydd yn ysgafnach eich corff a'ch meddwl.

Yr eiddoch yn bur.

**Dyrinos D C Thomas, (Ysgrifennydd),**
**4 Greenlawns, Cyncoed, Caerdydd. CF23 6AW**
**(Rhif Ffôn 2048 9894)**

**Rhaglen Yr haf**

| | | |
|---|---|---|
| Mai | 07 | Parchg Gareth Rowlands |
| Mai | 21 | Côr a chanu cynulleidfaol |
| Mehefin | 04 | Cystadlaethau |
| Mehefin | 18 | Cwis cerddorol |
| Gorffennaf | 02 | Te Mefus a Chyfarfod Blynyddol |
| Gorffennaf | 16 | Gwibdaith |

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## Gadewch i ni e-gyfathrebu yn Gymraeg

Mae ffigurau diweddaraf Cyfrifiad 2001 yn dangos bod dros 30,000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd. Mae rhoi gwybodaeth i gynifer o bobl, sydd wedi eu gwasgaru drwy'r brifddinas, am ddigwyddiadau penodol, cyngherddau, dramâu, a gweithgareddau plant yn gallu profi'n anodd.

Mewn ymateb i'r her yma, mae Menter Caerdydd wedi lawnsio prosiect uchelgeisiol a chyffrous, **e-chlysur**, sef bas data cynhwysfawr o gyfeiriadau e-bost. Digwyddodd y lawnsiad ar ddiwrnod olaf mis Mawrth yn swyddfa newydd Menter Caerdydd: Ty Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf. Yn bresennol yn lansiad e-chlysur roedd tri o gyflwynwyr teledu mwyaf adnabyddus Cymru, Rhodri Owen, Bethan Elfyn, a Huw Llywelyn Davies a oedd ymhlith y cyntaf i gofrestru eu cyfeiriadau e-bost.

Dywedodd Siân Lewis, Swyddog Datblygu Menter Caerdydd, " Mae'n galonogol a chynhyrfus iawn bod bron i 4,000, 10% o siaradwyr Cymraeg Caerdydd wedi cofrestru eu cyfeiriadau e-bost yn barod i gael gwybodaeth. Bydd y lawnsiad yn hwb pellach a gobeithiwn yn fawr mai cynyddu wnaiff y rhif wrth i bobl sylweddoli beth yw gwir fanteision y system glyfar ac effeithiol hon. Unwaith y byddwch wedi cofrestru byddwch yn derbyn holiadur dros y we, yn holi ynglŷn â'ch diddordebau a'ch hobïau. Dim ond derbyn gwybodaeth ynglŷn â'r categorïau a gofrestrwyd gennych a wnewch."

Dywed Rhodri Owen, "Credaf fod y prosiect hwn yn un amserol iawn i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y ddinas. Heb os, dibynnu ar glywed gan eraill ar lafar a wnawn ynglŷn â gweithgareddau, ond nid o hyn ymlaen yn dilyn lawnsio e-chlysur. Y mae e-bostio yn gyfrwng gwych i gysylltu a chyfathrebu â phobl. Yn wir dyma amser cynhyrfus a chyffrous iawn i'r Fenter ac e-chlysur."

I'r sawl sydd heb gofrestru eto ar gyfer y gwasanaeth yma sy'n rhad ac am ddim, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at sianlewis@mentercaerdydd.org

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â :
Ceri Tudno, Menter Caerdydd, Ty Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd, CF14 2FG. Ffon 029 20 565658.



## Y Cyfrifiad, Caerdydd a Cymuned

'Mae ffigurau'r Cyfrifiad yn ddiddorol iawn' oedd prif bennawd Y Dinesydd ym mis Mawrth. A gwir iawn hynny. Gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a chynnydd yng Nghaerdydd. Heb amheuaeth, dyma destun balchder i'r wlad ac i'w phrifddinas. Ond er hynny, fel y gŵyr pawb, mae sawl cwmwl du yn dal i hofran dros yr iaith. Er bod twf yn y nifer sy'n gallu siarad Cymraeg, onid oes yna ostyngiad mawr yn y nifer sy'n defnyddio'r Cymraeg, gostyngiad y mae'r ffigurau hyn yn ei guddio? Ac yn sgîl y twf yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg wedi bod yn wan, pam ar y ddaear y mae'r ardaloedd Cymreiciaf o ran iaith yn dangos dirywiad?

Dyma rai o'r cwestiynau y mae'r mudiad Cymuned yn eu gofyn wrth edrych ar y Cyfrifiad. Fel y gwyddoch, cynnal a hybu twf y Gymraeg yn y cymunedau hynny lle mae hi'n iaith gymunedol yw prif nod Cymuned, boed y rheini'n gymunedau gwledig, ôl-ddiwydiannol, neu drefol. Mae hyn yn nod teilwng i bobl o bob rhan o'r wlad. Mae bodolaeth cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yn rhan o gyfoeth amlddiwylliannol Cymru. A yw'r nod hwn felly'n golygu rhoi llai o sylw i ardaloedd lle nad y Gymraeg yw'r brif iaith? Nac yw, wrth gwrs. Nid mater o ddewis rhwng y naill beth a'r llall yw hi. Gallwn gael y ddau! Efallai fod rhai ohonoch wedi clywed y rhaglen radio 'Cymry Caerdydd: Brad Cefn Gwlad?' yn ddiweddar. Rhaid imi ddweud mai'r unig beth da am y teitl hwnnw (roedd y rhaglen ei hun yn well) oedd y marc cwestiwn. Roedd hwnnw'n rhoi'r cyfle i bobl ddweud 'na'!

Mae'n demtasiwn o hyd inni greu pictiwr du a gwyn o Gymru sydd wedi ei orsymleiddio. Meddyliwch am y duedd gyffredin i ystyried Caerdydd yn ddinas gosmopolitaidd sy'n dra gwahanol i ardaloedd yn y gogledd a'r gorllewin lle mae'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn enedigol o Gymru. Ond mae'r Cyfrifiad yn chwalu'r myth hwnnw yn llwyr. Mae 75% o boblogaeth Caerdydd wedi eu geni yng Nghymru. Ond yng Ngheredigion, dyweder, dim ond 59% o'r boblogaeth sy'n enedigol o Gymru. O ran man geni, mae Ceredigion yn llawer iawn yn fwy Seisnig na Chaerdydd. Mae newid poblogaeth anferth yn digwydd felly, ond pa bolisïau sy'n cael eu gweithredu i'n galluogi i groesawu'r holl newydd-ddyfodiaid i gymdeithas Gymraeg? Fawr ddim. Llai na dim, efallai, o feddwl am y cynlluniau rhyfeddol i adeiladu miloedd o dai sydd gan gyngor Ceredigion. Y ffaith amdani yw fod y Gymraeg yn prysur ddiflannu fel iaith gymunedol dros y rhan fwyaf o Geredigion. Ac un enghraifft yn unig o broblem ehangach yw sefyllfa Ceredigion.

Mae'r llwyddiannau mawr yng Nghymreictod Caerdydd yn hwb i'r galon. Gŵyr pawb mai ymdrech ar y cyd rhwng trigolion brodorol Caerdydd a nifer mawr o newydd-ddyfodiaid o ardaloedd Cymraeg a fu'n gyfrifol am hynny. Yn yr un modd, gall Cymry Caerdydd bellach fod o gymorth i Gymreictod yr ardaloedd Cymraeg hwythau. Ymhlith pethau eraill, mae aelodau Cymuned o Gaerdydd wedi helpu gyda llunio polisïau, gyda lobïo yn y Cynulliad, a chyda phicedu cwmni Llundeinig a oedd yn gwerthu tai yng nghefn gwlad Cymru gan lwyr anwybyddu bodolaeth y Gymraeg. Yn sgil etholiadau'r Cynulliad a chanlyniadau'r Cyfrifiad, dyma gyfle i barhau â'r gweithgarwch. Byddwn yn cynnal cyfarfod cyhoeddus yng nghanolfan Chapter, Treganna, nos Lun 12 Mai am 7:30pm, i drafod arwyddocâd y Cyfrifiad i Gaerdydd, i'r ardaloedd Cymraeg, ac i Cymuned ei hun. Mae croeso mawr i unrhyw un sydd â diddordeb. Byddwn hefyd yn trefnu digwyddiad cymdeithasol ddechrau'r haf, ac felly gobeithiwn yn fawr y cawn eich gweld cyn hir!

**Dylan Foster Evans** (dylanfosterevans@hotmail.com)

# Plasmawr

### Dathlu Diwrnod y Llyfr

Er mwyn dathlu diwrnod y llyfr eleni, cynhaliwyd nifer o wahanol weithgareddau yn yr ysgol. Mewn gwasanaeth i'r ysgol gyfan, darllenodd nifer o athrawon bytiau o'u hoff lyfrau a darllenodd Owain Griffiths a Stephanie Grimshaw o Flwyddyn 7 gerddi gan Menna Elfyn, Bardd Plant Cymru. Cafwyd cyfle hefyd i wobrwyo disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd o ran darllen yn yr ysgol. Gwobrwywyd y disgyblion a enillodd yng Nghwis Llyfrau'r Llysoedd sef Elen Roberts o Flwyddyn 8 ac Owain Griffiths o Flwyddyn 7, sef tîm llys Nantlais! Yn ysod amser cinio ar y diwrnod hwnnw cynhaliwyd cystadleuaeth lle roedd rhaid dyfalu pa athro sy'n darllen pa lyfr. Yr enillwyr oedd Thomas Harris, Kira Davies a Bethan Stewart o flwyddyn 7. Cafodd disgyblion Blwyddyn 7 gyfle i fynd ar wefan Cyngor Llyfrau Cymru.

### Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau mawr i bawb a gystadlodd yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Mai - Heledd Watts - Unawd Chwythbrennau, Ffion Rhisiart - Unawd Telyn dan 15eg, Gwenllian Wyn - Llefaru unigol dan 15eg, Siriol Dafydd - Llefaru unigol 15-19, Rhys John, Daniel Hughes a Sara Hobday - Ymgom dan 15eg, Helena Wilcox a Sioned Wyn - Deuawd dan 19eg, Côr SATB dan 19eg, Côr SA dan 19eg, Côr TB dan 19eg, Ensemble 14-25, Ensemble Lleisiol dan 19eg, Parti Llefaru dan 19eg, Cyflwyniad Dramatig Iau a Hŷn, Detholiad o Sioe Gerdd, Criw Gwobr Goffa Llew, Dawnsio Gwerin dan 19eg, Grwp Clocsio dan 25ain.

### Cystadleuaeth Iolo Morgannwg

Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth farddoniaeth Iolo Morgannwg eleni - Carys Huws - 1af yng nghystadleuaeth Blwyddyn 7, Mirain Dafydd a Daniel Gwyn Hughes a ddaeth yn agos i'r brig yng nghystadleuaeth Blwyddyn 8 a 9, Ffion Rolph - 2il, a Rebecca Williams, Sion Davies a Lowri Walton a ddaeth yn agos i'r brig yng nghystadleuaeth Blwyddyn 10 ac 11, a Ruth Davies - 1af ac 2il, Alex Clatworthy - 2il a Catrin Middleton - 3ydd yng nghystadleuaeth Blwyddyn 12 ac 13.

### Ymweliad ag Amsterdam

Fe adawon ni Blasmawr am chwech o'r gloch y bore er mwyn cyrraedd Dover. Ar y ffordd i Amsterdam fe arhosodd y bws mewn ffactri siocled yng Ngwlad Belg - blasus iawn! Fe gawsom ni groeso mawr yn y gwesty a chael pryd o fwyd cynnes.

Ar y bore cyntaf fe aethom i ymweld â Synagog ac yna cawsom gyfle i fynd i'r dre am brynhawn o siopa. Ar ddiwedd y prynhawn aethom ar gwch ar hyd y camlesi yn Amsterdam. Ar y nos Sul, fe gawsom ddwy gêm o fowlio deg a chyfle i chwarae snwcer.

Ar y dydd Llun aethom i ymweld â thy Anne Frank. Roedd yn brofiad arbennig ond roedd hefyd yn brofiad trist. Yn dilyn hynny, aethom i ymweld â ffactri gaws, siocled a chlogs. I ddathlu diwedd gwyliau da cynhaliwyd disgo gan staff y gwesty. Cyrhaeddom yn ôl ym Mhlasmawr yn eithaf hwyr ar y nos Fawrth ac roedd pawb wedi blino ar ôl ymweliad arbennig a bythgofiadwy.

**Olwen Morris-Jones (Bl. 9)**

### Astudio Daearyddiaeth yng Nglanllyn

Fe aeth disgyblion Blwyddyn 10, sy'n astudio Daearyddiaeth, i Wersyll Glanllyn i astudio rhewlifoedd ac afonydd. Roedd pawb wedi blino pan gyrhaeddom y gwersyll ond roedd gan bawb ddigon o egni i ymweld â fferm ar y diwrnod cyntaf. Er ein bod wedi cael nifer o wersi Daearyddiaeth yn ystod yr wythnos, roedd yna hefyd gyfle i fwynhau gweithgareddau fel canwio, adeiladu rafft a dringo. Cafodd pawb lawer o hwyl wrth wneud y gweithgareddau hyn. Roedd cyfle i nofio neu chwarae pêl-droed bob nos. Ar un o'r nosweithiau, aethom i fowlio deg a chawsom hwyl wrth wylio'r athrawon yn bowlio! Fe wnes i fwynhau ymweld â Chwm Idwal, lle gwelsom afon, rhewlifoedd a dyffryn siap 'u'. Hefyd, cawsom y cyfle i ddringo un o fynyddoedd y cwm ac roedd pawb wedi blino'n lân erbyn cyrraedd y copa. Ar y dydd Gwener, fe wnaethom ffarwelio â Glanllyn a dychwelyd i Blasmawr.

**Steffan Lloyd (Bl. 10)**

## Nodiadau o'r Cwmni Dawns

gan Rhodri Jones

Rhyw bwt o erthygl yw hon yn nodi rhai o'r troeon sydd wedi dod i ran y Cwmni yn yr ychydig fisoedd ers i mi daro gair ar bapur ddiwetha. Mae'n siwr fod rhai o ddarllenwyr y Dinesydd yn gobeithio fy mod wedi rhoi'r ffidil yn y to ond "never in Europe, good boy".

Bu priodas yn ein plith. Y cyntaf o'r Ibs (in-betweens), Iona Branwen, merch Dai a Gill James yn priodi â Siôn "Dom". Llongyfarchiadau i'r ddau ohonyn nhw. Roedd yr achlysur yn gwmws fel y dylai priodas o fewn y Cwmni fod, twmpath a chanu tan yr oriau mân a phawb yn joio ma's draw. Erbyn hyn mae'n arferiad 'da bechgyn y Cwmni i greu arch o gleddyfau i'r briodferch a'i gŵr fynd oddi tani wrth iddyn nhw ymadael â'r capel neu'r eglwys, wel, fe gâs Chris brênwêf. Trefnodd hi fod merched y Cwmni yn mynd am yn ail gyda'r bechgyn ond yn cario garlantau o ddaffodiliau. Roedd y darluniau yn werth eu gweld.

Rydym ar drothwy cyfnod prysur, cyfnod i ni'r bechgyn weld os ry' ni'n dal i ffito'n britches, wel fi beth bynnag. Yn barod mae'r Cwmni wedi dawnsio yn Stadiwm y Mileniwm, Porthcawl, Neuadd y Ddinas a Gwesty Dewi Sant. Mae'r misoedd nesaf yn llawn dop o weithgareddau a'r rhain yn amrywio o godi'r Pawl Haf yn Sain Ffagan i deithio i'r Weriniaeth Tsiec. Mae mis Mehefin fel arfer yn brysur gyda Gŵyl Ifan unwaith eto'n hawlio sylw ond eleni, mae'r Cwmni yn teithio i'r Iseldiroedd i ddathlu gyda'n ffrindiau yn Vogelvarde. Mae'r tîm dawnsio lleol yn agor eu canolfan newydd ac rydyn ni wedi cael ein gwahodd i ymuno yn yr hwyl. Mae'n siwr y byddwn ni hefyd yn dathlu achlysur tebyg wrth i ni ymadael â Heol Conwy ac yn symud i Ganolfan y Mileniwm fel rhan o symudiadau'r Urdd.

Mae Gŵyl Ifan yn cael ei chynnal ar ddiwedd y mis eleni, Mehefin 27 - 29, ond mae'r drefn yn debyg i'r arferol. Twmpath ar y nos Wener, teithiau o gwmpas y Fro a Chaerdydd ar y Dydd Sadwrn, gweithdai ar y Dydd Sul. Mae cwmni o ddawnswyr o Cork yn dod i ymuno â ni yn ogystal â chriw ifanc cyffrous o Ynys Manaw. Os am fwy o fanylion cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Cwmni Dawns.

Wn i ddim os y byddwn ni'n cystadlu yn y Genedlaethol. Mae'r criw ifanc yn daer i fynd ond cawn weld. Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer cystadlu erbyn hyn yn faith - dehongli dawns, casglu cerddoriaeth addas, hyfforddi dawnswyr, gwisgoedd ac ati. Y drafferth fwya yw ein bod yn teithio i Pisec yng Ngweriniaeth Tsiec ar y dydd Mawrth wedyn. Un peth sy'n siwr bydd 'na gryn nifer o straeon ar ddiwedd yr haf. Sori i'r rhai ohonoch chi sy ddim yn dilyn byd y ddawns ond mi fydda i'n nodi eto.

# Glantaf

### Pennaeth Newydd i Ysgol Glantaf

Am y trydydd tro yn unig yn ei hanes, penodwyd pennaeth newydd i Ysgòl Gyfun Gymraeg Glantaf, Caerdydd.

Bydd Mrs Rhiannon Lloyd yn cychwyn ar ei dyletswyddau newydd ar ddechrau mis Medi eleni, wrth i'r prifathro presennol, Mr Huw Thomas, ymddeol. Bu Mrs Lloyd yn Arolygydd ei Mawrhydi dros Ysgolion yng Nghymru er 1988, yn Ymgynghorydd y Gymraeg ac Addysg Ddwyieithog yng Ngwynedd, yn Bennaeth y Gyfadran Ieithoedd yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, ac yn athrawes Gymraeg a Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Wrth longyfarch Mrs Lloyd ar ei phenodiad dywedodd Mr Wyn Mears, Cadeirydd y Corff Llywodraethol, "Rydym yn hynod o ffodus i ddenu addysgwraig mor brofiadol i Lantaf. Mae gan Rhiannon rinweddau arbennig a fydd yn adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gan ei rhagflaenwyr, Mr Malcolm Thomas a Mr Huw Thomas. Mae ein dyled yn fawr i'r ddau ohonynt, ac edrychwn ymlaen yn hyderus at gyfnod newydd a chyffrous yn hanes a thwf yr ysgol."

Dywedodd Mrs Lloyd : "Mae'r cyfle i arwain datblygiadau Ysgol Gyfun Glantaf yn fraint fawr. Edrychaf ymlaen at y cyfle i roi ar waith yr hyn a ddysgais drwy fy mhrofiadau dros y chwarter canrif ddiwethaf, er budd plant, staff a chymuned ehangach yr ysgol".

### Y Gynghanedd yng Nglantaf (Owen John)

Yn ddiweddar bu grŵp o ddisgyblion o'r chweched dosbarth yn ddigon ffodus i gael mynychu gweithdy barddoni yn yr ysgol, o dan arweiniad y Prifardd Mererid Hopwood. Roedd cael bod ym mhresenoldeb enillydd y gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol ddwy flynedd yn ôl yn fraint fawr i bob un o'r disgyblion, ac roedd gobaith yn ein mysg y gallai hi ledu peth golau ar ddirgelwch y gynghanedd a barddoni yn gyffredinol. Diolchwn i'r Academi Gymreig am noddi'r achlysur.

Gyda difyrrwch y gweithdy, ac arweiniad arbenigol Mererid Hopwood, fe hedfanodd yr amser wrth i ni ddysgu am bwysigrwydd geiriau a phwrpas barddoni. Yna, symudwyd ymlaen i ddarllen a dadansoddi sawl cerdd wahanol, gyda'r bwriad o fynegi barn bersonol arnynt. Roedd cyngor y Prifardd yn y maes o fynegi barn ar gerddi yn fuddiol iawn i ni, ac roedd ein gallu i ddadansoddi cerddi yn gyfoethocach o lawer erbyn diwedd y sesiwn. Ar ôl hynny, daeth her fwyaf y gweithdy, wrth i ni gael ein cyflwyno i'r dasg o gynganeddu. Er bod cynganeddu yn ddawn estron i'r rhan fwyaf ohonom cyn dechrau'r sesiwn, cafwyd hwyl mawr yn cyfansoddi ambell linell yn y grefft gymhleth hon. Erbyn terfyn y gweithdy, roedd pob un o'r disgyblion wedi derbyn profiad cofiadwy, ac wedi cymryd cam mawr tuag at ddeall dirgelwch y gynghanedd. Mawr yw ein diolch i Mererid Hopwood, am gynnig ei chymorth a rhannu ei dawn gyda ni, yn y gweithdy gwerthfawr hwn, achos anodd dasg oedd ein dysgu!

### BETSET/GETSET

Ar y 27ain o Fawrth bu criw o fechgyn Blwyddyn 9, o dan arweiniad Miss Catrin Lewis, yn cymryd rhan mewn gweithgaredd Peirianneg yn Sony, Penybont. Cawsant y cyfle i greu roced, adeiladu pont, gwneud go-cart a dilyn amryw o brosiectau gwahanol. Roedd yn hanfodol eu bod yn gweithio'n effeithiol fel tîm er mwyn ennill pwyntiau ym mhob tasg.

Erbyn diwedd y dydd roedd un tîm o Glantaf wedi llwyddo i ennill y pwyntiau uchaf. Aelodau'r tîm oedd Llywelyn Davies, Tomos Gwynfryn, Ifan Patchell a Steffan Penri-Williams. Llongyfarchiadau iddynt am eu hymdrechion yn ystod y dydd.

### Cystadleuaeth Heddwch

Y llynedd fe fu nifer o ddisgyblion o Glantaf yn cystadlu yn y gystadleuaeth heddwch 'Dathlu ein Gwahaniaethau'. Yn ein gwersi Addysg Grefyddol fe wnaethom ni boster ar y thema hon.

Cawsom lawer o hwyl wrth greu'r poster a hefyd daethom i ddeall pa mor wahanol yw pobl y byd, ond hefyd sut mae gwahaniaethau yn dda a pha mor ddiflas fyddai bywyd petai pawb yr un fath. Ar ôl ennill fe gawsom wahoddiad i gyfarfod i dderbyn ein gwobrau - sef gwerth £15 o docynnau llyfrau a chopi o'n poster. Roedd yn brofiad gwych, diddorol ac addysgol ac edrychwn ymlaen at drio eto y flwyddyn hon.



Sioned Jones, Siwan Lloyd a Kate Watkins yn derbyn eu gwobrau

### Pêl-rwyd

Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer Ellie a Mekele Carey ar gael eu dewis i chwarae dros Gymru yng Nghwmbrân yn ddiweddar ym Mhencampwriaethau Ewrop dan 17 ac 19 oed. Teithiodd rhai o ddisgyblion Blwyddyn 7 ac 8 i Gwmbrân ddydd Sul, Mawrth 16 i'w cefnogi a chafwyd gwledd o bêl-rwyd drwy'r prynhawn.



Ellie a Mekele

## Ar y CYD... yng ngofal Lynne Davies

Roeddwn i'n sôn yn rhifyn diwethaf *Y Dinesydd* am enwau yng Nghaerdydd. Ers hynny, rwy wedi dod o hyd i lyfr arbennig, o'r enw *Place Names in Glamorgan** sy'n rhoi hanes enwau yn y sir. Mae enw Caerdydd ei hun yn ddiddorol. Roedd dwy elfen yn y gwreiddiol, sef Caer – 'castell' a Taf. Mae'r enw Taf yn dod o hen ffurf Frythoneg 'Tam'; mae'r rhan fwyaf o ieithwyr yn meddwl taw 'llifo' yw'r ystyr. Mae Taf, Tawe a Tafwys (a llawer o afonydd eraill) yn dod o'r un lle. Felly ystyr yr enw oedd Castell ar Daf. Daeth pobl i ynganu'r enw rywbeth yn debyg i 'Cardyf'. Gwelir y ffurf hon mor gynnar â'r 12fed ganrif, ac arhosodd yn yr enw Saesneg, Cardiff, ond roedd y ffurf Gymraeg wedi datblygu i Gaerdydd erbyn y 16fed ganrif. Does dim byd i'w wneud â dydd – diwrnod – ond mae'r sŵn 'f' yn newid i 'dd' yn eithaf aml yn dafodieithol.


Ar bwnc na allai fod yn llawer mwy gwahanol, rwy'n gweld bod *Hwn a Hon* yn sôn am falwod y mis hwn. Yn ôl y BBC, y peth gorau i'w roi mewn trap ar gyfer malwod yw Guinness, ac yn ail llaeth, ond gan nad wy'n trystio'r gath gyda'r naill na'r llall rwy wedi prynu tâp copr i fynd o gwmpas y potiau. Gawn ni weld sut mae'n gweithio...

**Place Names in Glamorgan*, Gwynedd O Pierce. Gwasg Merton Priory, £14.95.

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| rhifyn – *issue* | ieithwyr – *linguists* |
| ers hynny – *since then* | llifo – *to flow* |
| elfen – *element* | ystyr – *meaning* |
| gwreiddiol – *original* | ynganu – *to pronounce* |
| ffurf – *form* | yn dafodieithol – *dialectically* |

## Y Border Bach
**gan Hwn a Hon**



Yn y gwanwyn mae'r garddwr yn edrych ymlaen gyda gobaith i weld planhigion yn ailymddangos ar ôl y gaeaf neu brynu rhai newydd i lanw'r ardd â lliw. Gallwn gael pob math o syniadau gwych, ond a fydd hon yn flwyddyn arall pan fydd y malwod yn difa'n cynlluniau unwaith eto? Mae eleni'n argoeli am fod yn flwyddyn pan fydd eu rhifau ar gynnydd yn dilyn y gaeaf mwyn.

A oes ffordd o ennill y frwydr flynyddol hon yn y border bach? Y ffordd fwyaf cyffredin yw eu lladd drwy ddefnyddio'r peledi bach glas yna, ond gall rheini fod yn beryglus i adar ac anifeiliaid eraill. Maen nhw hefyd yn lladd pob math o falwod ac mae'n debyg fod y rhai mawr llysnafeddog yna yn dda i'r ardd am eu bod yn bwyta'r rhai llai! Gallwch brynu trapiau dyfeisgar i geisio'u dal, neu osod rhwystrau iddynt, unrhyw beth garw fel cerrig mân, plisgyn neu risgl gan nad ydynt yn hoffi symud dros bethau garw. Os ydych yn wir o ddifri gallwch fynd allan ar ôl iddi dywyllu â fflachell a bwced a'u casglu! Penderfynwch chi beth i'w wneud â nhw wedyn!

Ond mae yna ffordd arall. Beth am dyfu pethau nad ydyn nhw'n hoffi? Yn gyntaf, unrhw beth ag arogl go gryf, fel lafant, rhosmari, nasturtium neu ffenigl. Yn ail, pethau â dail gwydn fel llwyni camellia, rhosod, banadl, grug, crafanc yr arth, rhedyn a mathau o wair fel teulu'r stipa neu carex. Mae'r malwod yn hoff iawn o hostas yn arferol ond os dewiswch y mathau â dail rhychiog gwydn fe gânt lonydd. Yn drydydd, planhigion â dail blewog fel clust yr oen. Hefyd aubretia, bysedd y cŵn, rockroses ac alchemilla. Edrychwch o gwmpas am bethau sy'n cael llonydd yn yr ardd a chanolbwyntiwch ar y rheini.

Pob hwyl ar y brwydro. Gobeithio y cewch wireddu rhai o'ch cynlluniau o leiaf!

# CALLIWCH NEU'I CHOLLI

**Dyma apêl gan un o ddarllenwyr y Dinesydd. Dysgwr llwyddiannus a brwdfrydig iawn yw Steve Jeans.**

Mae canlyniadau y cyfrifiad wedi cael eu cyhoeddi ac mae'n edrych yn dda i'r Gymraeg yn y brifddinas. Mae'r nifer o bobl yng Nghaerdydd sy'n dweud bod gyda nhw allu yn yr iaith wedi tyfu i 16.3%. Ac mae'r nifer sy'n gallu ysgrifennu, darllen, siarad a deall yn cyrraedd 8.75%.

Beth ddylen ni wneud i sicrhau mwy o newyddion da fel hyn pan fydd cyfrifiad 2011 yn cael ei gyhoeddi? Mae'r ateb yn amlwg - rhaid defnyddio ein hiaith. Dw i'n gweithio yn y sector gyhoeddus a dim ond unwaith dw i wedi defnyddio'r Gymraeg wrth siarad â rhywun oedd yn gofyn am wasanaeth, er gwaetha fy nghyfarchiad dwyieithog. (Ac roedd hi'n byw yng Nghaer!)

Mae Deddf yr Iaith yn gorfodi cyrff cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau yn y Saesneg neu'r Gymraeg yn ôl dewis y cwsmer. Ond mae llawer o wrthwynebiad o hyd. Mae rhagfarn ymhobman. Yn aml iawn rydyn ni sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus yn nofio yn erbyn y llif pan rydyn ni'n gofyn am adnoddau. Ond beth allwn ni ddweud pan does neb yn gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg? Rydyn ni eisiau eich help.

Felly, dw i'n gofyn i chi o hyn ymlaen i ofyn am rywun sy'n siarad Gymraeg. Ysgrifennwch eich llythyrau o hyn ymlaen yn y Gymraeg. Byddwch yn gwrtais ond byddwch yn lletchwith. Byddwch yn rhesymol ond byddwch yn gadarn. I ddechrau, mae'n debyg, bydd hi'n cymryd llawer o'ch amser, ond gydag amser bydd pethau yn gwella. Cofiwch, rydyn ni yn y gweithle yn disgwyl amdanoch chi.

## Y Border Bach - Chwefror 2003

Pwy yw neu pwy oedd y Gwenllian y rhoddwyd ei henw ar fath arbennig o lwyn bythwyrdd? Dyna ofynnodd awdur yr erthygl. Yn addas iawn mae gan gymdeithas y Dywysoges Gwenllian yr ateb i chi. Yn 2000 daeth gair gan aelod sy'n byw yn y Moelfryn (Malvern) yn dweud ei bod wedi gweld a phrynu *Viburnum Tinus* yn dwyn yr enw Gwenllian - pwy oedd hi oedd y cwestiwn?

Dyma anfon y cwestiwn at Wasanaeth Cynghori y Royal Horticultural Society a chael ateb. Fe enwyd y planhigyn arbennig yma yn Kew tua deugain mlynedd yn ôl gan ŵr o'r enw Sydney Pearce i goffáu ei wraig Gwenllian. Mae'n hyfryd gwybod y gall unrhyw un ohonom goffáu cariad neu gyfaill yn y modd yma. Mae'r dewis a'r enwi yn cael ei wneud o dan ofalaeth swyddogol y Gymdeithas Arddwriaethol Frenhinol. Unwaith bo'r enw wedi ei gofrestru'n swyddogol dyma fydd yr enw arno mewn catalogau.

Yr oedd hi'n dipyn bach o siom nad ar ôl y Dywysoges Gwenllian yr enwyd y planhigyn ond fel awdur Hwn a Hon fe gododd y planhigyn a'i enw fy nghalon innau hefyd. Coffáu mewn cariad yr ydym ninnau hefyd fel y gŵr a roddodd yr enw i'r planhigyn.

Yn gywir
**Mallt Anderson**
(Ysgrifennydd Cymdeithas y Dywysgoes Gwenllian)

## Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Llun, 12 Mai**
Cyfarfod cyhoeddus a drefnir gan gangen Caerdydd o 'Cymuned': 'Cymreictod wedi'r Cyfrifiad: Beth nesaf i Gymry Caerdydd?' yng Nghanolfan Chapter, Treganna, am 7:30 p.m.

**Sadwrn, 17 Mai**
Cymdeithas Carnhuanawc: Gwibdaith Haf i hen deyrnas Erddyng (sef gorllewin Henffordd a dwyrain Gwent), dan arweiniad Frank Olding. Yn gadael 47 Wingfield Rd., Yr Eglwys Newydd am 9.15 a.m. Manylion pellach: post@carnhuanawc.net.uk neu 029-2062-3275.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Dr Hefin Jones (Prifysgol Caerdydd), 'Trychfilod ym Marddoniaeth Cymru', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 19 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyngerdd gan Gôr Hamdden Caerdydd, dan arweiniad Mrs Eilonwy Jones, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 20 Mai**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson y Llywydd (Ann Jones), yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mercher, 21 Mai**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan Owen John Thomas, AC, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Mercher, 21 Mai**
Cyngerdd gan Gôr Caerdydd (Arweinydd: Gwawr Owen) wedi'i threfnu gan Gangen Chwiorydd Caerdydd Cymdeithas y Beibl, yn Capel Salem, Stryd y Farchnad, Treganna, am 7.30 p.m. Bydd John Fry o Gymdeithas y Beibl yn annerch, a gwneir casgliad er budd gwaith y Gymdeithas.

**Iau, 22 Mai**
Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch: Sgwrs gan Sue Camper (Asiantaeth Banc Lloegr yng Nghymru) yn Churchills, Llandaf am 6.00 p.m. Manylion pellach: Ceri Preece (Ysgrifennydd), Hugh James Cyfreithwyr (Ffôn: 029-2039-1163; e-bost: ceri.preece@hughjames.com

**Mercher, 28 Mai**
Cymdeithas Golff y Ddinas: Cystadleuaeth Tlws: 'Yr Hen Byter' yng Nghlwb Golff Cradoc ger Aberhonddu. Manylion pellach: Dafydd Hampson-Jones (Ffôn: 029-2039-4021; e-bost: dhampson-jones@carr-sheppards.co.uk).

**Mawrth, 3 Mehefin**
Cwmni Theatr Arad Goch yn cyflwyno 'Twm a Mati Tat a'r Ddoli' yn Theatr Sherman am 10.30 a.m. ac 1.30 p.m. Yn addas i blant 7-11 oed. Tocynnau: 029-2064-6900.

**Mercher, 4 Mehefin**
Merched y Wawr (Bro Radyr): 'Allan â Ni'. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Mercher, 4 Mehefin**
Cymuned: Cyfarfod Cangen Caerdydd yn nhafarn y Mochyn Du, Gerddi Sophia am 7:30 p.m.

**Mawrth, 10 Mehefin**
Darlith Goffa G. J. Williams, Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: Darlith gan Dr Marged Heycock ar y testun 'Merched o'r Dwyrain a Dychymyg y Cymry 1000-1500' yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.30 p.m.

**Iau, 12 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Cyffwrdd â Chyffuriau' Sgwrs gan Iestyn Davies, yng Nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 14 Mehefin**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Gwibdaith ar y gamlas. Manylion pellach: 01446-732203.

**Sadwrn, 14 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc: Taith gerdded o gwmpas Dyffryn Rhiangoll (Cwm-du/Tretwr), dan arweiniad Geoff Davies a Keith Bush. Yn gadael 47 Wingfield Rd., Yr Eglwys Newydd am 12.45 o'r gloch. Manylion pellach: post@carnhuanawc.net.uk neu 029-2062-3275.

**Llun, 16 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Cyfarfod Blynyddol, a sgwrs gan Mansel Jones, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Iau, 3 Gorffennaf**
Cymdeithas Golff y Ddinas: Cystadleuaeth Tlws: 'Yr Hwyrnos' ym Mryn-hill, Y Barri. Manylion pellach: Dafydd Hampson-Jones (Ffôn: 029-2039-4021; e-bost: dhampson-jones@carr-sheppards.co.uk).

**Llun, 21 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Gwibdaith. Manylion pellach: 029-2069-2631.

*Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## LLYTHYR O'R MURUPUS ACADEMY, KAPENGURIA, KENYA

*Ym mis Ionawr aeth Rhiannon Evans i weithio mewn ysgol yng ngwlad Kenya. Mae'r Murupus Academy, 500km o Nairobi (prif ddinas Kenya) yng ngogledd-orllewin y wlad, ar y ffin gyda Uganda a Sudan. Mae dros 350 o fyfyrwyr yn yr ysgol a dim ond 12 o athrawon i'w dysgu. Casglwyd £115 gan Gapel y Crwys a defnyddiodd Rhiannon yr arian i brynu llyfrau, cerddoriaeth a phosteri i'r Academy. Dyma lythyr oddi wrth Rhiannon:*

**Jambo kutoga Kenya!**
Erbyn i chi ddarllen hwn byddaf hanner ffordd trwy fy nghyfnod o ddysgu yn Murupus Academy. Rwy'n rhannu tŷ gyda Rachel Morton, merch 18 mlwydd oed o Gaeredin, sydd hefyd yn aelod o 'Africa & Asia Venture'. Mae ein tŷ wedi'i leoli ar safle'r ysgol, lai na 15 metr o'r ystafelloedd dysgu.

Bob bore Dydd Llun i Ddydd Gwener, byddwn yn codi'n gynnar i fod yng ngwasanaeth yr ysgol erbyn 8.00am. Mae'r gwersi yn dechrau am 8.20am ac yn gorffen am 4.30pm. Wedi hynny, bydd y plant naill ai'n mynd adref at eu teuluoedd, neu'n mynd i'w 'dorms' os ydynt yn byw ar safle'r ysgol. Mae tua 70 o ddisgyblion preswyl a 200 arall yn cerdded yma'n ddyddiol. Does dim ystafell athrawon yn yr ysgol, felly bob amser egwyl a chinio byddwn yn ymgasglu o amgylch coeden ifanc am sgwrs a "chai" - te poeth, melys iawn!

Rwy'n dysgu 17 gwers yr wythnos yn amrywio o Saesneg i Gerddoriaeth, o Wyddoniaeth i Chwaraeon. Mae 30-40 o blant o'r un safon ym mhob dosbarth, ond mae ystod oedran o 5-13 blwydd oed, sy'n gwneud y dysgu'n anoddach. Ar y dechrau, roedd y plant ieuangaf yn ein hofni ni'r "mzungu" (pobl wyn), ond ers iddynt sylweddoli nad ydym yn mynd i'w chwipio am siarad yn y dosbarth, maent yn gyfeillgar iawn! Rwyf wedi dechrau ar y band recorder - bydd yr eiliad y tynnais yr offerynnau allan o'r bag yn aros gyda fi am amser hir - goleuodd wynebau dros 50 o blant mewn amrantiad! Ar hyn o bryd, mae'r plant yn gwneud y sŵn mwyaf byddarol posib ar y 15 recorder, ond maent yn mwynhau, a dyna'r peth pwysicaf! Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb a gyfrannodd at y band – mae e eisoes wedi gwneud gwahaniaeth i'r plant - mae'r gwersi Cerdd rydw i'n eu dysgu yn hollol wahanol i unrhyw beth arall maent wedi'i brofi!

Ddiwedd mis Rhagfyr diwethaf cafodd Kenya lywodraeth newydd am y tro cyntaf ers annibyniaeth y wlad yn 1963. Ddeuddydd ar ôl ei sefydlu, pasiwyd deddf newydd i sicrhau bod addysg gynradd yn rhad ac am ddim i bawb. Oherwydd hynny mae mwy o blant yn yr ysgolion eleni nag erioed. Roedd erthygl yn y papur yn sôn am ddyn 46 oed yn cofrestru gydag ysgol gynradd leol – dyma'i gyfle cyntaf i dderbyn addysg achos cyn hynny roedd addysg yn rhy ddrud iddo. 46 blwydd oed ac yn dechrau yn nosbarth cyntaf yr ysgol gynradd! Mae'n drist iawn wrth gwrs, ond o leiaf mae pethau yn dechrau newid. Mae'r athrawon yn Murupus Aacademy i gyd o'r farn y bydd y llywodraeth newydd yn gwneud lles i'r wlad.

Hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb a gefnogodd fy antur – gobeithiaf ddod â llawer o luniau nôl i chi gael gweld faint o wahaniaeth mae'r rhoddion yn ei wneud i'r ysgol.

**Rhiannon Evans**

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

*Ydy* ***Alcohol*** *yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

# DEINTYDD

*Gwasanaeth Iechyd (NHS) / Preifat*
*yn dal i dderbyn cleifion newydd*

**Osian Davies, BDS (Cymru)**
28 Heol y Santes Fair, Caerdydd
(drws nesaf i McDonalds)

029 2037 1393

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*Prisiau Rhesymol*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

**Mae pob cegin yn haeddu AGA**




**popeth o ffedog i ffwrn!**

the AGA shop

**81 Heol Caerffili, Caerdydd CF14 4AE**
**Ffôn: 029 20521277**
**Ffacs: 029 2052185**
**e-bost: Cardiff@Aga-Rayburn.c0.uk**

*Does dim angen poeni mwy am adeiladu eich Flat-packs!*

# 'THE FURNITURE ASSEMBLY'

*Cydlynir celfi eich swyddfa, gardd a'ch cartref i chi yn eich tŷ neu swyddfa!*

★ Gweithle cyfrifiaduron
★ Gwelyau a Wardrobau
★ Cypyrddau
★ Byrddau a Chadeiriau
★ Siediau i'r ardd
★ Cyfarpar chwarae i blant
★ Amryfal Flat-baciau eraill

*Gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy a dwyieithog am bris cystadleuol!*

**Ffôn: 029 2021 0058 (Alun)**
**Ffôn Symudol: 07980 175354**
furniture.assembly@ntlworld.com